

# Un ffordd mae bywyd yn gweithio

*“Câr dy gymydog fel ti dy hun.” (adn. 31)*

## Beth am ddarllen Marc 12:28–34 ac yna myfyrio

Yr ydym am barhau i edrych ar bwysigrwydd perthynas dda â phobl. Os nad yw ein perthynas yn canlyn rhai rheolau pendant, mae'n sicr o chwalu. Yn ôl testun heddiw, yr ydym i garu ein cymydogion fel yr ydym yn ein caru ein hunain. Mae hon yn rheol ar gyfer bywyd. Dyma'r ffordd y mae Duw wedi ordeinio perthynas.

Wrth gwrs, fe allwch benderfynu peidio â charu eich cymydog fel yr ydych yn eich caru eich hunain, ond, unwaith y gwnewch hynny, yr ydych yn gaeth. Yr ydych wedi eich caethiwo â chyfraith arall, cyfraith sydd yn sicr o ddwyn difodiad yn eich bywyd. Os nad ydych yn caru eich cymydog, yna mae'n anodd iawn i chi i ddod ymlaen hyd yn oed gyda'ch hun. Y gwir amdani, ni fydd eich cymydog yn diflannu os na fyddwch chi yn ei garu, y cyfan yr ydych yn ei wneud yw creu problem i chi eich hun. Nid ydym yn gwneud y cyfreithiau yma ar berthynas – eu darganfod ydym. Maent wedi eu hysgrifennu i mewn i fywyd gan ysgrifbin gwahanol i'n hysgrifbin ni. Gall pobl wneud pob math o ymdrechion i geisio cael bywyd i weithio mewn ffyrdd sydd yn wahanol i'r rhai y mae Duw wedi eu hordeinio, ond ychydig o lwyddiant ddaw.

Dyweddod rhywun fod yna bum ffordd y mae pobl yn ceisio meithrin perthynas â'i gilydd: (1) Mae rhai yn ceisio llywodraethu eraill. (2) Mae rhai yn ceisio pellter rhyngddynt ac eraill. (3) Mae rhai yn gwbl ddi-hid o eraill. (4) Mae rhai yn gweithio ag eraill. (5) Mae rhai yn gweithio dros ac er mwyn eraill. Pa un o'r patrymau yma, dybiwch chi, mae'r Creawdwr yn fodlon arnynt?

Beth am y cyntaf? A ydych yn berson sydd yn ceisio llywodraethu eraill? Beth sydd yn digwydd? Mae'r berthynas yn fuan iawn yn esgor ar densiynau ac yn sicr yn torri i lawr. Fe ddywedir am un gŵr ifanc oedd newydd briodi: “Yn y cartref, ceisiais fod yn ‘Fi fawr’ ond cefais fod fy ngwraig hefyd eisiau bod yn ‘Fi’.” Mae gwledydd unbenaethol yn ceisio canlyn y patrwm yma, ond buan y mae'r rheiny yn mynd i lwch hanes. Mae natur y byd fel ag y mae yn ein herbryn. Efallai fod y bobl yma yn llwyddo i fod mewn grym am ychydig, ond chwalu fydd eu hanes. Yn ôl Iesu: “Mae pawb sydd yn cymryd y cleddyf yn marw trwy'r cleddyf.” (Mathew 26:52)

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Ioan 13:34–35; Eff. 5:1–2; 1 Pedr 3:11–19

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam ddylem garu eraill?
2. Sut ddylem garu eraill?

## Gweddi

O Dad, cynorthwya fi nid i geisio llywodraethu ar eraill ond i geisio gweithio er mwyn eraill, ac yn hynny, adlewyrchu'r modd yr wyt ti yn delio gyda'm henaid. Yn enw Iesu. Amen.